Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**The Beeches**

**Cartref Nyrsio The Beeches**
**1 Bethuel Street**
**Aberdâr**
**CF44 7HJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/04/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# The Beeches

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | PARKCARE HOMES LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 46 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 19.5.2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael cymorth gan nyrsys a gweithwyr gofal sy'n garedig, yn ymroddedig ac ar y cyfan yn gyfarwydd iddynt. Ceir cydberthnasau cadarnhaol rhwng y preswylwyr a'r staff sy'n deall anghenion y bobl maent yn gofalu amdanynt. Mae'r cynlluniau personol yn nodi anghenion gofal a chymorth y bobl. Caiff y bobl gyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n cael eu darparu gan ddau gydgysylltydd gweithgareddau. Caiff amrywiaeth dda o brydau wedi'u coginio'n ffres eu gweini. Caiff y bobl ofal mewn amgylchedd cynnes, glân a chyfforddus sy'n diwallu eu hanghenion. Mae gwiriadau recriwtio diogel yn cael eu cwblhau ac mae'r staff gofal yn cwblhau rhaglen sefydlu drylwyr. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn cynnal diogelwch a llesiant y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r tîm rheoli yn cynnwys dirprwy reolwr newydd ei recriwtio sy'n ymrwymedig i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth yn barhaus. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth a chaiff archwiliadau monitro ansawdd eu cwblhau.

## Llesiant

Mae'r ddogfennaeth gofal yn y gwasanaeth yn llawn gwybodaeth ac yn gyfredol. Mae'r cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn fanwl ac yn glir i'w dilyn. Mae gan y nyrsys a'r gweithwyr gofal wybodaeth dda am y bobl ac felly maent yn gallu sylwi ar unrhyw newidiadau yn gyflym ac ymateb iddynt yn brydlon. Mae'r bobl yn aros mor iach â phosibl oherwydd atgyfeiriadau amserol at weithwyr gofal iechyd proffesiynol a threfniadau ar gyfer rhoi meddyginiaeth yn effeithiol. Mae prydau bwyd iach a maethlon yn ystyried anghenion deietegol y bobl. Dywedodd y bobl sy'n byw yn y cartref a'u perthnasau eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a ddarperir yng nghartref The Beeches.

Mae mesurau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r nyrsys a'r gweithwyr gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu ac yn cael eu hyfforddi i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r staff yn cael eu recriwtio yn unol â'r rheoliadau ac yn destun gwiriadau cyn cyflogi i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y rôl. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel a'i rhoi fel y'i rhagnodir. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn hyrwyddo arferion diogel.

Mae strwythur rheoli clir ar waith ar gyfer y gwasanaeth. Cawsom adborth cyffredinol gadarnhaol gan y staff y gwnaethom siarad â nhw, a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan y rheolwyr. Mae systemau effeithiol ar waith ar gyfer monitro ac archwilio safonau cymorth a'r amgylchedd. Mae datganiad o ddiben ar gael, sef dogfen sy'n nodi gwybodaeth am y gwasanaeth a ddarperir.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n eu helpu i gyflawni eu llesiant. Cartref gofal deulawr yw cartref The Beeches sy'n darparu ar gyfer pobl a'u hanghenion cysylltiedig. Mae'r ystafelloedd gwely yn gyfforddus ac wedi'u personoli. Mae cymhorthion symudedd addas ar gael i helpu'r bobl lle bo angen. Mae'r cartref yn agos at gyfleusterau ac amwynderau lleol. Gwelsom fod y bobl yn gallu ymlacio a'u bod yn gyfforddus yn eu hamgylchedd, a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi byw yno. Roedd y cartref i weld yn lân ac mewn cyflwr da.

## Gofal a Chymorth

Mae'r gwasanaeth yn hybu iechyd a llesiant y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn annog y bobl i ddatblygu cydberthnasau pwysig a'u cynnal. Mae'r system gofal electronig newydd yn cynnwys proffiliau personol a chymdeithasol sy'n nodi manylion o ran pwy yw'r bobl a sut maent yn hoffi cael eu cefnogi. Caiff eu hanghenion gofal a chymorth eu nodi mewn asesiadau risg unigol a chynlluniau personol. Er eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, mae angen i'r darparwr ddangos tystiolaeth glir ei fod yn ymgynghori â'r bobl i weld a yw eu cynlluniau yn addas o hyd. Mae'r cofnodion yn dangos bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol perthnasol yn cael eu cynnwys wrth ofalu am y bobl. Mae copïau o asesiadau arbenigol ar gael yn y cofnodion gofal ac yn cael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau personol. Mae'r cofnodion dyddiol yn dangos bod y bobl yn cael gofal priodol yn unol â'u cynlluniau personol.

Mae'r bobl yn cael eu trin mewn modd cynnes a charedig. Gwelsom y staff gofal yn trin y bobl fel unigolion. Maent yn sylwgar iawn, ac yn arfer y lefelau priodol o anogaeth a chymorth wrth ymateb i anghenion gwahanol y bobl. Mae'r bobl yn ymddangos yn gyfforddus ac yn gartrefol ym mhresenoldeb y staff. Mae'r staff yn siarad mewn modd cyfeillgar, gofalgar a pharchus ac mae'r bobl yn ymateb yn gadarnhaol. Dywedodd y perthnasau wrthym "*they are very good to my mother*" a "*the staff are very friendly*". Dywedodd y bobl sy'n byw yn y cartref wrthym *"They make sure you are safe", "staff are kind and friendly"* a *"they are all very nice".* Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cadarnhaol yn ystod yr arolygiad a gwelsom fod y staff gofal yn cefnogi'r bobl mewn modd urddasol.

Mae'r staff yn nodi lle y gallai'r bobl fod yn wynebu risg o niwed neu gam-drin, ac mae gweithdrefnau diogelu priodol ar waith. Gwelsom fod risgiau i iechyd a diogelwch y bobl yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau gofal ac asesiadau risg. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel a gwnaethant ddweud wrthym y byddent yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer chwythu'r chwiban a gwnaethant ddweud eu bod yn teimlo'n hyderus y gallent godi mater gyda'r rheolwr pe bai angen gwneud hynny. Dywedodd un preswylydd wrthym "*Oh yes, I feel quite safe*".

Mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd. Mae'r gwasanaeth yn cwblhau gwiriadau, sy'n sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar dymheredd cywir ac felly'n parhau i fod yn effeithiol. Mae archwiliadau meddyginiaeth yn sicrhau bod y staff yn cynnal arferion da ac yn nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Nid oedd unrhyw fylchau na gwallau yn y sampl o gofnodion meddyginiaeth a welsom; caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel mewn cyfleuster dan glo a chaiff gwiriadau o gyffuriau a reolir a stoc eu rheoli'n effeithiol.

## Yr Amgylchedd

Mae amgylchedd wedi'i bersonoli sy'n briodol i anghenion unigol yn helpu'r bobl i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys, eu hysbrydoli a'u gwerthfawrogi. Mae'r cartref yn addurno'r ystafelloedd mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn taro'r cydbwysedd cywir rhwng creu amgylchedd cynnes a chartrefol a chynnal diogelwch personol. Mae'r cartref ar ddau lawr ac mae lifft ar gael er mwyn sicrhau y gall y bobl symud rhwng lloriau yn ddiogel. Mae canllawiau wedi'u gosod lle bo'u hangen ac mae'r lloriau yn addas ar gyfer cymhorthion cerdded er mwyn lleihau'r risg o gwympo. Mae clychau galw ar gael i'r bobl er mwyn gallu rhoi gwybod i'r staff pan fydd angen cymorth arnynt.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i atal heintiau ac maent yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol. Gwelsom fod y staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) megis ffedogau a menig, a bod gorsafoedd diheintio dwylo/PPE ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth i'r bobl mewn lleoliad ac amgylchedd sydd â chyfleusterau a chyfarpar sy'n hyrwyddo eu canlyniadau personol. Mae'n hygyrch ac yn ddiogel, ac mae mesurau diogelwch priodol ar waith. Mae polisi Iechyd a Diogelwch ar waith ac mae'n gyfredol. Mae'r amgylchedd cyffredinol yn gynnes ac yn groesawgar, heb unrhyw arogleuon. Mae cynlluniau hefyd ar waith i ddatblygu'r ardd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae staff sydd wedi cael eu recriwtio'n ddiogel ac sy'n cael eu cefnogi yn gofalu am y bobl. Mae'r cofnodion a welsom yn dangos bod y darparwr yn cynnal y gwiriadau angenrheidiol wrth recriwtio staff. Mae'r cofnodion yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a geirdaon gan gyflogwyr blaenorol. Mae sawl aelod o'r staff wedi gweithio yn y cartref ers sawl blwyddyn, sy'n rhoi parhad i'r bobl. Mae'r staff yn cael eu goruchwylio'n ffurfiol yn rheolaidd yn eu rolau a chânt gyfleoedd i drafod unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â'r gwaith a allai fod ganddynt. Dywed y rhan fwyaf o'r staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym fod y Priory Group yn cynnig sesiynau cwnsela am ddim i'r holl staff, sy'n “*Brilliant*”. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw “*It’s a lovely place to work*”, “*we could do with more praise*”, “*I enjoy my job*” ac “*I’m learning every day*”.

Gall y bobl fod yn hyderus bod y darparwr gofal a rheolwyr y cartref yn monitro ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei gael. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd, ac yn cyfarfod â'r preswylwyr a'r staff. Gwelsom yr adroddiad monitro ansawdd diweddaraf, a oedd yn dangos adborth ac argymhellion y bobl ar gyfer gwella'r cartref. Ar y cyfan, roedd yr adborth gan unigolion a pherthnasau yn gadarnhaol iawn: “*They are all very nice*”, “*I can visit at any time*” a “*Since I’ve been here, they have been marvellous*”.

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth i'w helpu i ddeall y gofal, y cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth yn rhoi disgrifiad cywir o'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd mewn perthynas â'r llety sydd ar gael, y broses atgyfeirio a derbyn, y math o ofal a chymorth sydd ar gael a sut mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth Cymraeg. Mae'r datganiad o ddiben hefyd yn cynnwys manylion am drefniadau goruchwylio a hyfforddi'r gwasanaeth ar gyfer y staff gofal a'r staff nyrsio.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 34 | Nid oes digon o staff gofal ar gael bob amser i sicrhau bod anghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu a bod yr unigolion yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol. | Cyflawnwyd |
| 16 | Nid yw'r cynlluniau personol bob amser yn cael eu diweddaru i adlewyrchu anghenion cyfredol. | Cyflawnwyd |
| 36 | Nid yw'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio unigol priodol. | Cyflawnwyd |
| 59 | Nid yw’r gwasanaeth yn cadw cofnodion cywir a chyfredol o ran rhoi meddyginiaeth argroenol. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/06/2023